
18FED O ORFFENNAF

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

Mae'r wythnos olaf wedi cyrraedd ac mae wedi bod yn wythnos hynod o brysur arall! Wythnos yma, tro blwyddyn 2 a blwyddyn 4 oedd hi i gynnal sesiynau Dathlu Dysgu.

Roedd yn hyfryd gallu croesawu chi fel rheini mewn i'r ysgol ac roedd y plant wrth eu bodd yn rhannu gwaith y tymor.

Trefnodd blwyddyn 2 Caffi Iachus i'r rhieni i ddathlu dysgu'r tymor ac i nodi pwysigrwydd bwyta a byw'n iach. Cacennau sbwng Fictoria a the parti a gafwyd ym mlwyddyn 4 wrth i'r disgyblion rannu eu llyfrau a gwaith y tymor gyda'u rhieni.

Croesawyd hefyd rieni'r dosbarth meithrin i'r ysgol dydd Mercher yn ystod ein diwrnod mabolgampau a diolch unwaith eto i'r GRhA am drefnu'r stondin diodydd.

Aeth Blwyddyn5 a 6 yr wythnos hon ar drip i barc Fictoria ac aeth y dosbarth derbyn i Amgueddfa Sain Ffagan. Diolch i bawb wnaeth helpu gyda'r gwibdeithiau yma.

Hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb sy'n rhan o deulu unigryw Ysgol Treganna. Diolch i chi rhieni, gwarchodwyr am eich cymorth a'ch cefnogaeth. Ni'n ffodus iawn ac yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad. Diolch i'r staff gweithgar a hyfryd sydd gennym yma yn yr ysgol. Mae ysgol Treganna yn le hapus iawn ac mae'r cydweithio a'r positifrwydd sydd rhwng y staff yn dyst o hynny. Diolch i'r llywodraethwyr am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd cyson.

Ac yn olaf, diolch i'r disgyblion ARBENNIG sydd gyda ni yma yn yr ysgol. Heb os ac oni bai disgyblion gorau'r byd!

Mwynhewch wyliau'r haf a bydd yr ysgol yn ail agor i'r disgyblion ar ddydd Mercher y 3ydd o Fedi.

## Calendr

Diwrnodau HMS (dim ysgol i'r disgyblion) 01/09/25 02/09/26

Ysgol yn ail gychwyn i ddisgyblion 03/09/25

## Cyngor Eco

Wythnos yma mae'r Cyngor Eco wedi mwynhau coginio a bwyta ei bwydlen gynaliadwy gydag Ysgol Glyn Coed ym mwyty "Y Dosbarth" yng ngholeg Caerdydd a'r Fro. Coginiodd y Cyngor Eco pitsa, saladau a chrymbl blasus iawn! Llongyfarchiadau mawr i bawb!



## Hwyl Fawr

Fel ysgol hoffem ddymuno'n dda i Mr Mathew Jones fydd yn ein gadael wythnos yma. Diolch i Mr Jones am ei holl waith caled a'i gwmnïaeth dros y ddwy flynedd diwethaf.Bydd Mr Jones yn addysgu fel athro mewn ysgol yn Dubai ym mis Medi ac edrychwn ymlaen at glywed hanesion yr ysgol newydd.

Bydd Miss Jones a Miss Maskell hefyd yn ein gadael ar ddiwedd y tymor a diolch i'r ddwy am eu cyfraniad gwych i'r ysgol dros y tymor diwethaf.

Pob hwyl i Miss Morris fydd yn priodi yn ystod yr haf ac edrychwn ymlaen at groesawu hi nol fel Mrs Craig ym mis Medi!

## Blwyddyn 6

Dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher fe wnaethom fwynhau gwasanaethau gadael gwych Blwyddyn 6! Diolch i Mrs Davies, Miss Jones a Mr Jones am eu holl waith caled yn paratoi'r disgyblion ar gyfer y gwasanaethau yma.
Mae wedi bod yn bleser llwyr i ddod i adnabod disgyblion blwyddyn 6 a'u gweld yn tyfu i fod yn ddisgyblion cwrtais a charedig. Mae'r ysgolion uwchradd fydd yn eu derbyn ym mis Medi yn ysgolion lwcus, lwcus iawn. Diolch i rieni Blwyddyn 6 am eich cefnogaeth a dymunwn yn dda i'r teuluoedd sydd yn ein gadael yr wythnos hon am y tro olaf.

## Dyddiadau HMS y flwyddyn nesaf

Dyma gadarnhad o ddyddiadau HMS y flwyddyn nesaf.
Dydd Llun 1/9/25
Dydd Mawrth 2/9/25
Dydd Gwener 24/10/25
Dydd Llun 5/1/26
Dydd Gwener 22/5/26
Dydd Llun 20/7/26

## Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Ar ddiwedd blwyddyn arall, hoffem ddiolch i holl wirfoddolwyr y GRhA am eu gwaith caled.
Rydym yn hynod gyffrous am y flwyddyn sydd o'n blaenau a'r gwahanol ddigwyddiadau sydd eisoes wedi'u trefnu.

Eleni, rydym yn ddiolchgar iawn i'r GRhA am ariannu ardaloedd awyr agored i bob dosbarth, yn ogystal â chyfrannu tuag at Gaban y Coed, fydd yn cael ei adeiladu gan Lovells yn ystod yr haf. Byddwn yn defnyddio'r Caban ar gyfer ein gwersi awyr agored y tymor nesaf.

Cofiwch fod croeso mawr i aelodau newydd ac i rieni newydd ymuno â'r GRhA. Bydd calendr o ddigwyddiadau'r GRhA ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi.